Eitem Agenda 2 **14 Chwefror 2010** **WNC 18.10**

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR MAI 2010

YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD

Cynaeafu a Marchnata - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

1. Cyfaint terfynol y pren a anfonwyd i ffwrdd hyd ddiwedd Mawrth 2010 yw 885km^3. Mae'n bleser gennyf adrodd ein bod wedi cyrraedd ein targed teneuo o 180km^3, er gwaethaf tywydd gwael, a'n bod wedi curo'n targed perfformiad o ran teneuo coed collddail.

2. Cynhaliwyd y chweched a'r olaf o'n harwerthiannau electronig ym mis Mawrth a gwerthwyd y rhan fwyaf o'r pren, gyda galw da am bob parsel. Gwelwyd hefyd ychydig o gynnydd mewn prisiau plociau a barrau, ond mae prisiau at ei gilydd yn sylweddol is nag oeddynt yn 2008. Mae'n bleser gennyf adrodd ein bod wedi marchnata'r cynllun gwerthu llawn a gyhoeddwyd, mesur a groesawyd yn gynnes gan broseswyr pren Cymru yng ngoleuni amharodrwydd y sector preifat i fasnachu pren oherwydd y dirywiad economaidd. Er bod amodau masnachu'n anodd i felinau llifio, mae gwendid barhaus y bunt wedi cynnal galw iach am bren cartref ar gyfer pob math o gynnyrch. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn parhau am rannau helaeth o Flwyddyn Ariannol 2010/11.

Coetiroedd Gwell i Gymru - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

3. Cafodd fy nhîm Gweithrediadau Grantiau a Rheoliadau ddiwedd prysur i'r flwyddyn ariannol yn cymeradwyo hawliadau BWW, gyda mwy na 90% o'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) wedi ei hawlio. Cafodd pob hawliad dilys a gyflwynwyd cyn diwedd y flwyddyn, ac nad oedd angen eu harchwilio, eu prosesu'n llwyddiannus. Erbyn hyn, arwynebedd achosion BWW wedi'u cymeradwyo yw 30,121 ha, sy'n cynnwys 349 ha o blannu newydd yn y dyfodol, 272 ha o hynny'n goetir brodorol.

4. Ymhlith yr achosion BWW diddorol a gymeradwywyd yn ddiweddar mae: Coetiroedd y Brifysgol yn Aberystwyth, sy'n cael eu datblygu i roi mynediad i'r cyhoedd, a chynllun mawr yng Nghwm Elan sy'n cynnwys mynediad sylweddol i'r cyhoedd ac adfer Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol.

5. Adroddwyd am 19 o achosion o gwympo anghyfreithlon honedig ers diwedd Chwefror, yn bennaf yn y De, gan arwain at bum achos a fydd yn destun ymchwiliad. Mae perchennog a apeliodd yn erbyn gorchymyn i ad-dalu grant yn ddiweddar, trwy gyfrwng Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, wedi colli ei apêl ac wedi dechrau ad-dalu £18 mil i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Adenillwyd £34 mil

arall gan Gyngor Bwrdeistref Sirol yn y de ar gyfer planiad mawr diweddar a fethodd.

Creu Coetir – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

6. Wrth ymateb i gyhoeddiad diweddar y Gweinidog am greu 100,000 hectar o goetiroedd newydd dros yr 20 mlynedd nesaf, mae fy nhîm Grantiau a Rheoliadau wedi creu prosiect i sicrhau bod ein cynllun BWW wedi ei gynllunio'n gywir a bod adnoddau yn eu lle i ddechrau cyflawni'r targed hwn.

Prosiect Ymchwil Ystâd Goetir Llywodraeth y Cynulliad – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

7. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ac rydym yn casglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar yr wybodaeth a gesglir, er enghraifft, gan y Rhaglen Effeithlonrwydd Gweithredu dan arweiniad Trysorlys EM yn Lloegr. Rydym yn crynhoi gwybodaeth ynglŷn â gwaredu tir y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn y gorffennol, materion cyfreithiol, ac rydym yn adolygu nifer o ddewisiadau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth a rheolaeth ystad goetir y Cynulliad. Rydym wedi dechrau gwaith ar ddadansoddiad portffolio diwygiedig, gan dynnu ar brofiad o'r archwiliad diweddar o'n dadansoddiad portffolio presennol ac wedi dechrau ar raglen o geisio barn cwsmeriaid a budd-ddeiliaid. Bydd y broses o dynnu'r wybodaeth hon at ei gilydd yn dechrau ym mis Mehefin ac rydym yn bwriadu cyflwyno set o gasgliadau drafft o gam cyntaf yr astudiaeth hon i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

Gweithrediadau Ailblannu - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

8. Ar ôl i'r tywydd gwael achosi oedi o bedair wythnos yn y rhaglen ailblannu, mae staff a chontractwyr wedi bod yn arbennig o brysur yn ystod y tri mis diwethaf mewn ymgais i ddal i fyny. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd rhyw 1,154 hectar wedi eu hailblannu, ychydig yn fyr o'r targed blynyddol o 1,200 hectar. Caiff effeithiolrwydd ailblannu ar ystad goetir Llywodraeth y Cynulliad ei fonitro'n systematig gan Forest Research bob blwyddyn. Dwysedd stocio yw'r paramedr allweddol a fesurir a'r targed ar gyfer cnydau cynhyrchiol yw cael 2,50 o gyffion y flwyddyn erbyn blwyddyn 5. Y dwysedd stocio cyfartalog a gyflawnwyd ar gyfer cnydau a blannwyd yn 2005 oedd 2,423 o blanhigion yr hectar, sef 5.2% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol, gan ychwanegu at y duedd o welliant cyson.

Consortiwm Newid yn yr Hinsawdd Cymru – *Rhaglen 2: Diogelu coed a gofalu am eu hiechyd*

9. Aeth fy Mhennaeth Forest Research yng Nghymru a Phennaeth Datblygu Polisi a Rhaglenni i lansiad ffurfiol Consortiwm Newid yn yr Hinsawdd Cymru yn Abertawe ym mis Mawrth. Mae hyn yn cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe a bydd yn rhedeg am chwe blynedd.

Panel Cwarantîn Coedwigaeth – *Rhaglen 2: Diogelu coed a gofalu am eu hiechyd*

10. Cynhaliwyd cyfarfod o Banel Cwarantîn Coedwigaeth Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Môr y Canoldir (EPPO) yng Nghaerdydd fis Mawrth diwethaf. Anerchwyd y cyfarfod gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Y Cadeirydd oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol EPPO ac roedd Pennaeth Forest Research yng Nghymru yn bresennol. Ymhlith y materion allweddol roedd nematodau coed pîn, tyllbryfed onn emrallt, a chwilod hirgorn sitrws ac Asiaidd.

Rhaglen Ffermydd Gwynt yr Ystâd Goedwig Genedlaethol - Rhaglen 3: *Ynni Adnewyddadwy*

11. Ers f'adroddiad diwethaf mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â'r materion mawn sydd wedi peri i Gyngor Cefn Gwlad Cymru godi Gwrthwynebiad Cynllunio ffurfiol i Brosiect Pen-y-cymoedd. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Cyngor Cefn Gwlad a'r Deiliad Opsiwn i ddatblygu lliniariad posibl yn nhermau cynllun rheoli patrymol sy'n ymdrin â rhannau helaeth o'r ardal ddatblygu. Er bod y cynnig hwn wedi cael derbyniad da, mae yna faterion i'w datrys o hyd rhwng y Deiliad Opsiwn a'r Cyngor Cefn Gwlad yn ymwneud â lleoliadau penodol tyrbinau yn nhermau osgoi mawn dwfn a thirlunio.

12. Derbyniwyd drafft cynnar o'r Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Prosiect Brechfa. Mae'r datblygiad hwn yn gymhleth oherwydd ei ddaearyddiaeth, sy'n golygu bod rhan o'r datblygiad yn dod o dan Gynllunio'r Awdurdod Lleol a bod y rhan arall o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio Seilwaith. O'r pedwar prosiect arall, mae tri yn symud yn eu blaen yn ôl y disgwyl, ac mae'r llall yn flaenoriaeth isel ar hyn o bryd i'r Deiliad Opsiwn gan ei fod yn canolbwyntio ar Ben-y-cymoedd.

Taith y Comisiynwyr Mehefin 2010 – *Rhaglen 3: Ynni Adnewyddadwy*

13. Thema Taith y Comisiynwyr fydd ***Rhywbeth i danio'r meddwl – Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru*** ac fe'i cynhelir yn ne Cymru. Bydd yn cynnwys ymweliad safle â datblygiad fferm wynt Pen-y-cymoedd a thaith o gwmpas Ffatri Western Wood Energy ym Mhort Talbot.

COETIROEDD I BOBL

Focus on Forestry First – *Rhaglen 6: Sgiliau dysgu a sector yn seiliedig ar goetiroedd*

14. Menter hyfforddiant a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r diffyg sgiliau yn y sector coedwigaeth yng Nghymru yw *Focus on Forestry First*. Fe'i rheolir gan Ganolfan Asesu Canolbarth Cymru a'r Gororau ac fe'i datblygwyd â chymorth Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac arian o Gynllun Grantiau Trosglwyddo Gwybodaeth Proses a Marchnata dan Echel 1 y Cynllun Datblygu Gwledig. Lansiwyd y cynllun £1 miliwn, a fydd yn para am dair blynedd, ym mis Ebrill a bydd yn helpu busnesau yn y diwydiant pren i lunio cynlluniau hyfforddi am ddim, yn cynnig ariannu hyd at 100% ar gyfer cyrsiau hyfforddi, ac yn cynnal cofnodion hyfforddiant ar gronfa ddata ar-lein.

Canolfan Ymwelwyr Garwnant – Rhaglen 5 Hamdden a Mynediad

15. Mae Canolfan Ymwelwyr Garwnant ar agor ac mae staff bellach yn gweithio yn y ganolfan. Mae'r tîm addysg yn gweithio gydag ysgolion lleol i sefydlu enw newydd i'r ganolfan, a gaiff ei lansio'n swyddogol gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 8 Gorffennaf 2010.

16. Un o themâu sylfaenol y ganolfan yw mynediad pob gallu, ac rydym wedi cyflwyno cyfleusterau a llwybrau newydd i'r ardal yn ddiweddar er mwyn hwyluso hyn. Rydym hefyd yn anelu at gynnig a hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd i seminarau lleol, digwyddiadau hyfforddi, a grwpiau lleol i ddefnyddio'r ganolfan, yn ogystal â chynnig profiad ymwelydd undydd i gymunedau lleol ac i ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

DATBLYGU SECTOR COEDWIG CYSTADLEUOL AC INTEGREDIG

Rhaglen Ynni Pren - Rhaglen 3: *Ynni adnewyddadwy*

17. Ar hyn o bryd mae yna 128 o gynlluniau cofrestredig, gan gynnwys 7 cofrestriad newydd ers mis Mawrth. Mae yna 18 o brosiectau cymeradwy a chyfanswm gwerth y grantiau yw £423,600. Hyd yn hyn mae grantiau gwerth £93,600 wedi'u talu. Mae tîm y Prosiect wedi nodi pryderon am y gadwyn gyflenwi tanwydd fel rhwystr allweddol i gymeriant, a bydd y maes hwn yn cael sylw arbennig yn 2010/11. Mae Rheolwr Prosiect newydd wedi ei nodi a bydd yn trosglwyddo o Lywodraeth y Cynulliad ar secondiad tair blynedd o fis Mai ymlaen. Caiff cyfres o bum digwyddiad sioe deithiol ledled Cymru eu hyrwyddo a byddant yn digwydd ym mis Mai.

GWELLA ANSAWDD YR AMGYLCHEDD

Cynllun Dylunio Coedwig Niwbwrch - Rhaglen 10: *Bioamrywiaeth, treftadaeth a thirwedd sy'n berthynol i'r safle*

18. Mae cynllun rheoli drafft wedi ei baratoi ar gyfer Coedwig Niwbwrch ond ar ôl cyfarfod cychwynnol gyda'r Cyngor Cefn Gwlad, cytunwyd ei ailddiwygio'n helaeth er mwyn ei wneud yn fwy eglur ac yn haws i'r cyhoedd ei ddeall. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd ac mae dyddiadau wedi eu hawgrymu ar gyfer cyfarfod nesaf Partneriaeth Cyswllt Niwbwrch ym mis Mehefin. Caiff y dyddiad hwn ei benderfynu'n fuan a rhoddir gwybod i fynychwyr yn y cylchlythyr.

CAMAU BUSNES

E-recriwtio – *Cam busnes 2: Amrywiaeth staff*

19. Mae'r system e-recriwtio ddwyieithog a lansiwyd yng Nghymru ym mis Ebrill, a swydd gyntaf Comisiwn Coedwigaeth Cymru bellach ar gael yn y ddwy iaith. Caiff adborth ar y system newydd ei fonitro i sicrhau y gwneir addasiadau a gwelliannau lle bo angen.

Arolwg Staff – Camau ar gyfer Cefnogi Pobl – *Cam busnes 2: Amrywiaeth staff*

20. Mae canlyniadau Arolwg Staff 2009 wedi arwain at brosesu'r camau gweithredu a ganlyn gan Gefnogi Pobl yn genedlaethol gyda mewnbwn yng Nghymru gan Adnoddau Dynol Gomisiwn Coedwigaeth Cymru: Hyrwyddo dewisiadau gweithio hyblyg, yn enwedig ymhlith staff gwrywaidd; parhau i ddarparu'r offer presennol sy'n cynorthwyo staff i liniaru straen a chael cydbwysedd bywyd a gwaith; a hyfforddi a chefnogi rheolwyr i gyfathrebu'n well â phobl ag anableddau.

Strategaeth Bobl Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr 2011 – 2016 – *Cam busnes 3: Hyfforddiant staff*

21. Mae'r Bwrdd Rheoli Adnoddau Dynol ar hyn o bryd yn pennu thema gyffredinol a meysydd allweddol y Strategaeth Bobl nesaf. Gan mai'r busnes sy'n berchen ar y Strategaeth, cysylltwyd â Bwrdd pob Gwlad yn gynnar er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

Buddsoddwyr mewn Pobl – *Cam busnes 3: Hyfforddiant staff*

22. Bydd cyfweliadau Buddsoddwyr mewn Pobl yn digwydd ym mis Mehefin, pan gynhelir cyfweliadau â 4% o staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Trefor Owen
Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Mai 2010